**Crynodeb**

| Cyfarfod | Cyfeirnod |
|---|---|
| 22/01/2026 | Medr/26/Min15 |

Medr — Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil / Commission for Tertiary Education and Research

**Cofnodion 15fed cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026 yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, Heol Dumballs, Caerdydd.**

**Yn bresennol:**
**Aelodau'r Bwrdd:**
Yr Athro Fonesig Julie Lydon (Cadeirydd)
James Owen (Prif Weithredwr)
Yr Athro David Sweeney (Dirprwy Gadeirydd)
Yr Athro Aaqil Ahmed
James Davies
Cerys Furlong
Jeff Greenidge
Dr Gwenllian Lansdown Davies
Rob Humphreys
Stephen Marston
Yr Athro Chris Millward
Orla Tarn
Jayne Woods

**Staff:**
Dr Ewen Brierley (Cyfarwyddwr, Rheoleiddio) – eitem 8 yn unig
Harriet Barnes (Cyfarwyddwr, Ymchwil, Arloesi a Sgiliau) – eitem 9 a 10 yn unig
Rhian Edwards (Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi)
Geoff Hicks (Cyfarwyddwr, Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad) – eitem 9 a 10 yn unig
Francesca Hill (Prif Swyddog Gweithredu) – eitemau 1-6 yn unig
Gareth Lanagan (Pennaeth Buddsoddi a Monitro) – eitem 9 a 10 yn unig
Kieron Rees (Cyfarwyddwr, Profiad Dysgwyr) – eitem 8 yn unig
Steven Williams (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Chynllunio Corfforaethol)

**Ymddiheuriadau:**
Daniel Beard
Deio Owen
Estelle Hart

## 1. Croeso a datganiadau o fuddiant

1.1 Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod. Nodwyd buddiannau yn ychwanegol at y rhai a oedd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wefan Medr.

## 2. Cofnodion blaenorol

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 13 Tachwedd ac 11 Rhagfyr eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 3. Materion yn codi a chamau gweithredu

3.1 Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol. Cytunwyd y byddai sesiwn yn cael ei hamserlennu yn y dyfodol i ystyried dyletswydd strategol Medr mewn perthynas â hybu cenhadaeth ddinesig ar draws y sector addysg drydyddol.

**Cam Gweithredu:** Gweithrediaeth Medr i ddwyn cynigion gerbron ar gyfer trafodaeth am hyn yn y Bwrdd.

## 4. Adroddiad y Cadeirydd

4.1 Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan y Cadeirydd am ymgysylltu allanol a datblygiadau ar draws y sector cyfan. Trafododd y Bwrdd mor bwysig ydoedd bod Medr yn cyfrannu tystiolaeth i oleuo'r cyd-destun polisi yng Nghymru yn y dyfodol ac fe bwysleisiodd rôl Medr o ran cefnogi deilliannau cadarnhaol ar draws y system addysg drydyddol.

4.2 Nodwyd y diweddariad.

## 5. Diweddariad gan Gadeiryddion Pwyllgorau

5.1 Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau gan Gadeiryddion ei bwyllgorau cynghori am weithgarwch diweddar.

- Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac wedi ystyried materion ariannol y sector.
- Roedd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn bwriadu cwrdd i bennu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Roedd y Pwyllgor Ansawdd wedi parhau â'u trafodaethau am fframweithiau ansawdd a gweithio mewn partneriaeth.
- Roedd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi wedi ystyried materion a oedd yn ymwneud â'r dirwedd ymchwil ac arloesi.

5.2 Nodwyd y diweddariadau hyn.

## 6. Adroddiad y Prif Weithredwr

6.1 Cafodd y Bwrdd adroddiad y Prif Weithredwr a bu'n trafod ystod o faterion strategol a rheoleiddiol, gan gynnwys cynaliadwyedd y sector, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chynnydd ar raglenni gwaith allweddol.

6.2 Fe wnaeth y Bwrdd nodi'r adroddiad.

## 7. System reoleiddio newydd

7.1 Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i ddiweddariad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch system reoleiddio newydd Medr, gan gynnwys y fframwaith rheoleiddio arfaethedig a'r camau nesaf tuag at roi'r system ar waith.

7.2 Fe gytunodd y Bwrdd ar ddull o gwblhau'r system reoleiddio, gan gynnwys ystyriaeth fanwl bellach gan is-grŵp o aelodau'r Bwrdd, cyn y doir ag argymhelliad yn ôl gerbron y Bwrdd.

*Eitem wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi – ni chyhoeddir rhagor o fanylion gan eu bod yn ymwneud â gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol.*

## 8. Cyngor gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

8.1 Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i gyngor gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a ddarparwyd yn ei rôl statudol i gynghori Medr ynghylch hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

8.2 Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo ymateb arfaethedig Medr i'r cyngor.

*Ni chyhoeddir rhagor o fanylion gan eu bod yn ymwneud â gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol.*

## 9. Polisi cyllido

9.1 Bu'r Bwrdd yn trafod dull arfaethedig Medr o ddatblygu Polisi Cyllido a methodoleg gyllido ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys trefniadau llywodraethu arfaethedig a graddfeydd amser dangosol.

9.2 Cytunwyd y byddai Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gwneud gwaith manwl ac yn dwyn argymhellion gerbron y Bwrdd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

*Ni chyhoeddir manylion gan eu bod yn ymwneud â datblygu polisi a phenderfyniadau ynglŷn â chyllido yn y dyfodol.*

## 10. Telerau ac Amodau Cyllid Ymchwil ac Arloesi

10.1 Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r dull arfaethedig o ddatblygu telerau ac amodau ar gyfer cyllid ymchwil ac arloesi, gan gynnwys datblygu darpariaethau ychwanegol, wedi'u teilwra ar gyfer darparwyr perthnasol.

10.2 Dirprwywyd awdurdod i fwrw ymlaen â gwaith i ddatblygu telerau ac amodau drafft ar gyfer ymgynghori.

10.3 Awdurdod wedi'i ddirprwyo i'r Dirprwy Gadeirydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Rheoleiddio, a'r Prif Weithredwr i gwblhau'r telerau ac amodau drafft ar gyfer ymgynghori.

**11**. Nid oedd Unrhyw Fater Arall.

**12**. Cyfarfod nesaf y Bwrdd – 19 Mawrth 2026.

**Papurau a ddarparwyd er gwybodaeth:**

13. Cafodd y Bwrdd gofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod ei Bwyllgor Ymchwil ac Arloesi

14. Cafodd y Bwrdd gofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod ei Bwyllgor Ansawdd

15. Cafodd y Bwrdd gofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod ei Bwyllgor Pobl a Diwylliant.

*Nid yw'r Pwyllgorau'n gyhoeddus ac felly nid yw eu cofnodion yn cael eu cyhoeddi.*

**Sesiwn y prynhawn**

**16. Cymuned y Dysgwyr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro**

16.1 Bu Bwrdd Medr mewn sesiwn yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro lle cafodd gyflwyniad gan Bennaeth Grŵp y Coleg, Sharon James-Evans, ar y gymuned ddysgu amrywiol yn y Coleg.

16.2 Cafodd Bwrdd Medr gyfle hefyd i siarad gyda dysgwyr am eu profiadau o astudio mewn Coleg addysg bellach.

**<u>Eitemau Wedi'u Heithrio Rhag Cael Eu Cyhoeddi</u>**

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i nifer o eitemau nas cyhoeddir am eu bod yn ymwneud â:

- gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol,
- gweithgarwch rheoleiddio byw,
- gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol, neu
- faterion lle na fyddai er budd y cyhoedd eu bod yn cael eu datgelu.